**TAFLEN BENDERFYNIAD CABINET**
**CYNGOR GWYNEDD**

| | |
|---|---|
| **Dyddiad y Cyfarfod o'r Cabinet:** | 28 Medi 2021 |
| **Dyddiad y bydd y penderfyniad yn dod i rym** ac y gweithredir arno, oni bai bo'r penderfyniad yn cael ei alw i mewn yn unol ag adran 7.25 o Gyfansoddiad Cyngor Gwynedd | 13 Hydref 2021 |

**PWNC**

Eitem 8:YSGOL ABERSOCH

**PENDERFYNIAD**

Cadarnhawyd yn derfynol y cynnig a roddwyd drwy rybudd statudol, i gau Ysgol Abersoch ar 31 Rhagfyr 2021, a darparu lle i ddisgyblion yn Ysgol Sarn Bach o 1 Ionawr 2022, yn unol ag Adran 53 o'r Ddeddf Safonau a Threfniadaeth Ysgolion (Cymru) 2013 a gofynion y Cod Trefniadaeth Ysgolion 11/2018.

**RHESYMAU DROS Y PENDERFYNIAD**

Yn ôl ym Medi 2019, bu i'r Cabinet gefnogi argymhelliad i gychwyn trafodaethau ffurfiol gyda Chorff Llywodraethol Ysgol Abersoch er mwyn ystyried opsiynau ar gyfer ei dyfodol yn dilyn lleihad yn niferoedd disgyblion yr ysgol. Yn ystod y cyfarfodydd, ystyriwyd sawl opsiwn ar gyfer addysg gynradd yn nalgylch Ysgol Abersoch er mwyn sicrhau darpariaeth gynaliadwy i'r dyfodol gan ymateb i'r prif heriau mae'r ysgol yn ei wynebu.

Ym Medi 2020, bu i'r Cabinet benderfynu ymgymryd â phroses ymgynghori statudol yn unol â gofynion adran 48 o Ddeddf Safonau a Threfniadaeth Ysgolion (Cymru) 2013 ar y cynnig i gau Ysgol Abersoch ar 31 Awst 2021 a darparu lle i ddisgyblion yn Ysgol Sarn Bach ar 1 Medi 2021. Cadarnhawyd y penderfyniad gan y Cabinet ar 3 Tachwedd 2020, yn dilyn i'r penderfyniad gwreiddiol gael ei alw mewn a'i gyfeirio'n ôl i'r Cabinet gan y Pwyllgor Craffu Addysg ac Economi.

Bu i'r Adran addysg gychwyn yr ymgynghoriad ar 5 Ionawr 2021 yn wreiddiol, ond gan na wnaeth yr un plentyn fynychu safle'r Ysgol ar y diwrnod hwnnw o ganlyniad i ofyniadau diweddaraf Covid-19, roedd anfodlonrwydd yn lleol nad oedd yr awdurdod wedi cyd-fynd â gofynion y Cod Trefniadaeth Ysgolion i gyhoeddi'r ymgynghoriad ar "ddiwrnod ysgol". Bu i Lywodraeth Cymru gyhoeddi addasiad dros dro i'r Cod Trefniadaeth Ysgolion a phenderfynwyd ail gyhoeddi'r ymgynghoriad yn dilyn yr 8fed o Ionawr 2021, a'i gynnal rhwng 12 Ionawr a 23 Chwefror 2021.

Derbyniwyd 154 ymateb i'r ymgynghoriad statudol a bu i'r Cabinet ystyried y sylwadau a dderbyniwyd yn ystod y cyfnod ymgynghori statudol, ynghyd â'r ymateb i'r sylwadau hynny

cyn gwneud eu penderfyniad i :

i. Gymeradwyo cyhoeddi cynnig statudol i gau Ysgol Abersoch ar 31 Rhagfyr 2021, a darparu lle i ddisgyblion yn Ysgol sarn Bach o 1 Ionawr 2022
ii. Cymeradwyo cyhoeddi rhybuddion statudol ar y cynnig yn (i) yn unol â gofynion Adran 48 o Ddeddf Safonau a Threfniadaeth Ysgolion (Cymru) 2013.

Yn unol a'r penderfyniad hwn cyhoeddwyd rhybudd statudol, yn unol â Deddf Safonau a Threfniadaeth Ysgolion 2013 a Chod trefniadaeth Ysgolion 011/2018 gan gychwyn cyfnod gwrthwynebu statudol o 28 diwrnod.

Derbyniwyd 211 gwrthwynebiad a 2 ddeiseb, ac yn dilyn y cyfnod gwrthwynebu, mae'n ofynnol i'r Cabinet ystyried adroddiad ffurfiol ar y gwrthwynebiadau ac ymateb iddynt cyn gwneud penderfyniad terfynol.

**DATGANIADAU O FUDDIANT PERSONOL AC UNRHYW OLLYNGIADAU PERTHNASOL A GANIATAWYD GAN Y PWYLLGOR SAFONAU**

Derbynwyd datganiad o fuddiant gan Cyng. Dewi Roberts gan ei fod yn aelod o lywodraethwyr Ysgol Abersoch.

**UNRHYW YMGYNGHORIADAU A GYNHALIWYD CYN GWNEUD Y PENDERFYNIAD**

Ymgynghorwyd â'r Swyddogion Statudol sydd wedi eu cynnwys yn yr adroddiad.

Cynhaliwyd Ymgynghoriad Statudol a derbyniwyd sylwadau'r Aelod Lleol sydd wedi eu cynnwys yn yr adroddiad